**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023 am 10.30 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd G Caple

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms N Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a'r Gymraeg
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Mr S Thomas, Swyddog Prosiect Yr Eisteddfod
Mr O Rowlands, Menter Iaith

## 1 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris.

## 2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 3 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2023 yn rhai cywir.

## 4 Rhaglen Waith Is-Bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg 2023-2024

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol restr arfaethedig o faterion i Aelodau y bydd angen i Is-Bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg eu trafod yn ystod Blwyddyn 2023-2024 y Cyngor.

Tynnwyd sylw Aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn cynnwys manylion adroddiadau allweddol i'w trafod yn ystod Blwyddyn y Cyngor. Hefyd, rhoddwyd gwybod y byddai'r Is-bwyllgor yn derbyn diweddariadau, pan fo'n briodol, gan feysydd gwasanaeth amrywiol er mwyn monitro gwaith hybu'r Gymraeg ar draws

gwasanaethau'r Cyngor.

Cynigiwyd bod Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cwrdd yn ffurfiol ar ddau achlysur yn ystod Blwyddyn 2023-2024 y Cyngor, gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal pan fo'n addas, a hynny yn ôl cais y Cadeirydd.

Roedd Aelodau'n fodlon ar y rhaglen waith, a chydnabuwyd bod ei chynnwys yn hyblyg a byddai modd ei newid i adlewyrchu anghenion busnes.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg:

1. Cymeradwyo Rhaglen Waith Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ar gyfer Blwyddyn 2023-2024 y Cyngor.

## 5 Gwella Proses Recriwtio'r Cyngor o ran Denu Siaradwyr Cymraeg 2022-2027

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg yr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg er mwyn i staff Adnoddau Dynol a staff Gwasanaethau Cymraeg ddechrau gwaith drafftio Cynllun Gwarantu Cyfweliad cyraeddadwy a rhesymol ar gyfer siaradwyr Cymraeg Lefel 3 ac uwch os ydyn nhw'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd wag.

Nododd Rheolwr y Gwasanaeth fod cyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad wedi'i nodi'n gam gweithredu yn strategaeth statudol 5 mlynedd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg a'i chynllun gweithredu ategol. Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y rhain mewn cyfarfodydd a gafodd eu cynnal ar 25 Hydref 2022 a 9 Mai 2023.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth wybod y byddai cyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn cryfhau sefyllfa'r Cyngor wrth fodloni'r gofynion statudol o ran y Gymraeg a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn lleihau'r perygl o weithredu cyfreithiol yn ei erbyn. Yn ogystal, byddai'r cynllun hefyd o fudd i'r Cyngor fel cyflogwr yn sgil dewis ehangach posibl o ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol.

Pwysleisiodd Rheolwr y Gwasanaeth y byddai'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad, pe byddai'n cael ei gymeradwyo, dim ond yn gwarantu cyfweliad ar gyfer y rheiny sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol sydd wedi'u nodi mewn unrhyw becyn swydd; a fyddai ddim yn gwarantu cynnig swydd, gan y byddai gweithdrefnau dethol yn sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r swyddog am y cyflwyniad cynhwysfawr ac roedd o blaid yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Siaradodd y Cadeirydd am bwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg staff nifer o adrannau er mwyn gwella'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu cynnig. Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau cadarnhaol am y cyfle i adolygu'r cynllun yn dilyn cyfnod o 12 mis.

Roedd y Dirprwy Arweinydd hefyd o blaid yr argymhellion a chanmolodd yr Awdurdod Lleol am gyflwyno menter o'r fath. Cymharodd y Dirprwy Arweinydd y

fenter arfaethedig â'r cynllun cadarnhaol a gafodd ei gyflwyno gan RCT ar gyfer cyn-filwyr.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol am ragor o wybodaeth o ran beth fyddai 'cynllun gwarantu cyfweliad cyraeddadwy a rhesymol ar gyfer siaradwyr Cymraeg lefel 3 ac uwch' yn ei gynnwys; a gofynnodd a fyddai cyfle i'r Is-bwyllgor weld y polisi terfynol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr sicrwydd i'r Is-bwyllgor y byddai'r cynllun yn addas i'r diben ac yn ceisio cyflawni amcanion tymor hwy'r Cyngor mewn perthynas â'r Strategaeth 5 Mlynedd a Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu. Nododd y Cyfarwyddwr y byddai'r Undebau Llafur yn rhan o'r broses, a chadarnhaodd y byddai modd i'r Is-bwyllgor weld drafft terfynol o'r polisi.

Cytunodd y Cadeirydd â sylwadau'r Dirprwy Arweinydd a chadarnhaodd y byddai'n fodlon ar drefnu cyfarfod ychwanegol o'r Is-bwyllgor cyn y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2024, a hynny er mwyn i Aelodau drafod y polisi drafft.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg:

1. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg ddrafftio Cynllun Gwarantu Cyfweliad cyraeddadwy a rhesymol ar gyfer siaradwyr Cymraeg Lefel 3 ac uwch, yn amodol ar ymgeiswyr yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd wag. Bydd hyn yn unol â cham gweithredu a gafodd ei gytuno a'i nodi yn strategaeth statudol y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg;
2. Dirprwyo'r penderfyniad i weithredu i Gyfarwyddwyr Gwasanaeth Materion Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Cabinet o ran materion Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cymraeg;
3. Unwaith y bydd y Cynllun ar waith, cynnwys is-bennawd ar hysbysebion swyddi yn tynnu sylw at y cynllun gwarantu cyfweliad;
4. Cytuno i gynnal adolygiad i fesur llwyddiant y Cynllun, unwaith y bydd y Cynllun ar waith am gyfnod o 12 mis.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.52 am**

**Y Cynghorydd R Lewis**
**Cadeirydd.**